MICHAEL, DAVID ('Dewi Afan '; 1842 - 1913), bardd

Enw: David Michael
Ffugenw: Dewi Afan
Dyddiad geni: 1842
Dyddiad marw: 1913
Rhiant: Margaret Michael
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd yn Llanelli 7 Gorffennaf 1842. Bedyddiwyd ef yn eglwys Fedyddiedig Penuel, Cwmafan, ac yn ddiweddarach ymaelododd yn y gangen newydd yn Nhabor a'i ethol yn ddiacon yno. Canai yn bennaf ar destunau Beiblaidd a moesol. Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol cynnar mewn cyfrol o'r enw *Fy Ngwanwyn* (Aberdâr 1873), a gyflwynwyd i'w fam Margaret Michael, ac ymddangosodd wedi hynny eiriau Cymraeg *Ruth a Naomi ... A Cantata* (Cwmavon, 1876), a *Gwaredigaeth Pedr o'r Carchar* (3ydd arg., Cwmafon, 1885; arg. 1af, 1879; ail arg., 1880). At hyn, cyhoeddodd gyda Llewelyn Griffiths ('Glan Afan') ddau ddetholiad o farddoniaeth beirdd cyfoes dan y teitlau *Blodeu'r Beirdd* (Cwmafon, 1871) ac *Oriel y Beirdd* (Cwmafon, 1882). Bu farw 11 Awst 1913, gan adael un ferch a phedwar mab. Nai iddo oedd Thomas Morgan ('Afanwyson'). Na chymysger ef â DAVID MICHAEL (1785 - 1860?), telynor ym Merthyr Tydfil (*Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig*; *Llyfr Cerdd Dannau*).

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Seren Cymru, 10 Hydref 1913

Seren Gomer, 1913, 351

South Wales Daily News, 14 Awst 1913

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360879

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu